OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 531

# Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012

## RHAN 2

GWEITHDREFNAU TRIBIWNLYS EIDDO PRESWYL

### Ceisiadau o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas ag effaith niweidiol cartrefi symudol ar amwynder y safle

**12.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan wneir cais gan berchennog safle am benderfyniad gan dribiwnlys o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 fod cartref symudol, o ystyried ei gyflwr, yn cael effaith niweidiol ar amwynder y safle.

(2) Os yw'r tribiwnlys, yn ystod gwrandawiad, o'r farn bod y cartref symudol yn cael effaith niweidiol ar amwynder y safle ond y byddai'r cartref symudol yn peidio â chael effaith niweidiol o'r fath pe gwneid atgyweiriadau penodol i'r cartref symudol, rhaid i'r tribiwnlys—

(a) rhoi gwybod i berchennog y safle a'r meddiannydd pa atgyweiriadau, ym marn y tribiwnlys, y dylid eu gwneud;

(b) gwahodd meddiannydd y cartref symudol a pherchennog y safle i ddynodi, mewn perthynas â'r atgyweiriadau hynny—

(i) yr amser y byddai ei angen i'w cyflawni; a

(ii) y gost o'u cyflawni; ac

(c) gwahodd meddiannydd y cartref symudol i ddynodi a fyddai'n fodlon cyflawni'r atgyweiriadau hynny ai peidio.

(3) Rhaid i'r tribiwnlys, gan ystyried unrhyw ddynodiadau a roddir o dan baragraff (2)(b) ac (c), naill ai—

(a) gwneud penderfyniad o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983; neu

(b) os yw paragraff 5A(4) o Bennod 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys, gwneud gorchymyn interim sy'n gwneud yn ofynnol bod meddiannydd y cartref symudol yn cyflawni atgyweiriadau o'r fath o fewn y cyfryw amser a ystyrir yn rhesymol gan y tribiwnlys.

(4) Pan fo'r tribiwnlys yn gwneud gorchymyn interim o dan baragraff (3)(b), rhaid iddo ohirio'r gwrandawiad a phennu dyddiad ar gyfer gwrandawiad newydd, na chaiff fod yn ddiweddarach na 7 diwrnod ar ôl y dyddiad a bennir yn y gorchymyn fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cwblhau'r atgyweiriadau.

(5) Wrth bennu dyddiad newydd ar gyfer gwrandawiad o dan baragraff (4), rhaid i'r tribiwnlys—

(a) rhoi i'r partïon ddim llai na 14 diwrnod o rybudd o ddyddiad y gwrandawiad; a

(b) gwahodd perchennog y safle a'r meddiannydd i ddynodi, ddim hwyrach na 4 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad newydd, pa un a yw'r atgyweiriadau a ddisgrifir yn y gorchymyn (yn eu barn hwy) wedi eu cwblhau ai peidio.

(6) Yn y gwrandawiad newydd—

(a) os yw'r tribiwnlys wedi ei hysbysu, gan feddiannydd y cartref symudol a hefyd gan berchennog y safle, fod yr atgyweiriadau a orchmynnwyd o dan baragraff (3)(b) wedi eu cwblhau, rhaid i'r tribiwnlys wrthod y cais;

(b) os nad yw'r tribiwnlys wedi ei hysbysu felly, rhaid iddo wahodd unrhyw barti sy'n bresennol i wneud sylwadau pellach ynghylch maint yr atgyweiriadau sy'n aros heb eu cwblhau a'r amser y byddai ei angen i'w cyflawni; ac

(c) ar ôl ystyried unrhyw sylwadau o'r fath, rhaid i'r tribiwnlys naill ai gwneud gorchymyn interim pellach o dan baragraff (3)(b) o'r rheoliad hwn neu wneud penderfyniad o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen i Ddeddf 1983.